# GWEITHFEYDD TRIN DŴR GWASTRAFF PEN-Y-BONT NEWYDDLEN

Mai 2024

## Beth sydd wedi digwydd?

Ar 17 Mai, cawsom adroddiad fod llygredd yn afon Ogwr ger gweithfeydd trin dŵr gwastraff (GTDG) Pen-y-bont.

Mae GTDG Pen-y-bont yn agos at draeth Aberogwr, ac mae'n helpu i ddarparu gwasanaethau trin dŵr gwastraff ar gyfer tua 160,000 o gwsmeriaid yn ardal Pen-y-bont ar Ogwr. Ar ôl cael ei drin, mae'r dŵr yn cael ei ddychwelyd yn ddiogel i'r amgylchedd fel rheol yn gyson â'n trwyddedau rheoliadol. Nid oes byrst mawr wedi bod, ond rydyn ni wedi ffeindio gollyngiad bach danddaear ar y safle sydd wedi golygu bod ychydig bach o ddŵr gwastraff yn llifo trwy'r bancyn i mewn i nant gyfagos sy'n bwydo'r afon. Mae'r dŵr gwastraff yn gymysg â dŵr daear, ac mae'n gyfyngedig i ardal fechan ger y gweithfeydd trin.

## Pa mor ddifrifol yw'r llygredd?

Dŵr daear yw hyn yn bennaf, ag elfen fechan o ddŵr gwastraff. Fodd bynnag, am fod y gollyngiad bach yma'n llifo i aber helaeth, rydyn ni'n cymryd hyn o ddifrif o ystyried pa mor agos yw'r safle at ddyfroedd ymdrochi lleol. Dyna pam ein bod ni'n cynghori cwsmeriaid lleol i osgoi mynd i'r môr yn Aberogwr dros y dyddiau nesaf nes bod y gwaith samplo ehangach wedi cael ei gwblhau rhag ofn.



## Ydych chi'n gwybod pam fod hyn wedi digwydd?

Rydyn ni wedi cymryd nifer o fesurau, gan gynnwys profi'r carthffosydd sy'n dod i mewn i'r safle a'r pibellau eraill sydd o fewn ffiniau'r safle. Wrth asesu ein tanciau a'n seilwaith ar y safle, ffeindiwyd bod un o danciau trin y safle'n gollwng o dan y ddaear.

## Beth yw'r cam nesaf?

Ein blaenoriaeth yw cyfyngu'r gollyngiad yma er mwyn lliniaru unrhyw effaith ar yr afon a'r traeth ymdrochi. Rydyn ni'n gwagio'r tanc hefyd (trwy gyfeirio'r llif i danc arall ar y safle). Mae'n bosibl bod cwsmeriaid wedi gweld lliw gwyrdd/coch yn yr afon, y llifyn sy'n cael ei ddefnyddio i ddod o hyd i'r twll yw hwn. Nid yw hyn yn niweidiol i'r amgylchedd.

Ein nod yw ffrwyno'r gollyngiad yn llwyr heddiw fel y gallwn asesu'r tanc yn fwy manwl a dechrau'r gwaith trwsio. Fodd bynnag, bydd y gwaith trwsio yma'n ymestynnol o ystyried maint y safle, ac rydyn ni'n cyflawni asesiadau ecolegol pob dydd er mwyn atal unrhyw effaith ar yr amgylchedd.

## A yw hi'n ddiogel mynd i'r dŵr yn yr afon neu ar draeth Aberogwr?

Wrth i'r ymchwiliadau barhau a'r gwaith trwsio gael ei gyflawni, rydyn ni'n cynghori pobl i beidio â mynd i'r dŵr yn agos at y gweithfeydd trin dŵr, yn yr aber nac ar draeth Aberogwr nes ein bod wedi cwblhau'r profion rhag ofn bod unrhyw effaith ar ansawdd y dŵr.

Mae hi'n broblem gymhleth iawn, ac ymddiheurwn am unrhyw anghyfleustra wrth i ni geisio datrys y broblem cyn gynted â phosibl a chyfyngu'r effaith ar yr amgylchedd.

**Dylid nodi nad yw'r digwyddiad yma'n effeithio ar ein gwasanaethau dŵr gwastraff ar gyfer cwsmeriaid nac ar unrhyw gwrs dŵr na dyfroedd ymdrochi eraill.**

Os oes unrhyw gwestiynau gennych, croeso i chi gysylltu â **sewerage.services@dwrcymru.com**.